OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 481

## Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

### RHAN 7

### DIWYGIADAU I REOLIADAU ADDYSG (BENTHYCIADAU AT RADD DDOETHUROL ÔL-RADDEDIG) (CYMRU) 2018

**Diwygiadau i Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018**

**170.** Yn Atodlen 1, ar ôl paragraff 10 mewnosoder—

"**10A.**—(1) Person sydd â hawliau gwarchodedig—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(ii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i); neu

(iii) yn aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon;

(b) sy'n mynychu cwrs dynodedig yng Nghymru neu'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(4).

**Gwladolion o'r Deyrnas Unedig**

**10B.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; neu

(ii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i);

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir; neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sy'n mynychu cwrs dynodedig yng Nghymru neu'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(4).

(3) Pan fo person ("P") yn dod o fewn is-baragraff (1)(a)(ii), rhaid i'r person y mae P yn aelod o'r teulu mewn perthynas ag ef hefyd fodloni gofynion is-baragraff (1)(b) a (d).

**10C.**—(1) Person—

(a) sy'n aelod o deulu person sy'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) sy'n mynychu cwrs dynodedig yng Nghymru neu'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(4).

### Personau sy'n preswylio yn Gibraltar

**10D.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig a chanddo statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar;

(ii) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar;

(iii) yn wladolyn UE a chanddo hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE; neu

(iv) yn aelod o deulu gwladolyn UE, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE;

(b) sy'n mynychu cwrs dynodedig yng Nghymru neu'n ymgymryd â chwrs dynodedig yng Nghymru;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(4)."